# Helfa Bwystfilod Bach - Taflen Cofnodi

**Amser**: 20-30 munud **Lleoliad**: Coedwig

**Bwriad**: Adnabod bwystfilod bach, ddysgu lle gawn hyd iddynt a datblygu sgiliau cofnodi data

**Angen**: Taflen yma, pensil, clipfwrdd, taflen neu app adnabod bwystfilod bach, carthen wen, potiau, chwydd wydr

**Pwnc:**
Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Sgiliau:**
Rhifedd

**Ewch i grwydro ychydig ar y goedwig i hela trychfilod.**

**Ceisiwch adnabod yr anifeiliaid ac yna defnyddiwch ddull tali i'w cofnodi yn y tabl.**

**Dyma enghraifft o sut i lenwi'r**

| Anifail | O dan garreg | O dan frigyn | Ar y ddaear | Yn yr awyr | Ar goeden | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pry | IIII | 卌 | | II | III | 14 |
| Gwlithen | I | 卌 II | II | | III | 13 |

**Beth yw gwneud?**

- Edrychwch o dan gerrig a brigau gan godi a dychwelyd nhw'n ofalus fel gwnewch chi ddim brifo unrhyw anifail bach.
- Edrychwch ar hyd boncyff goeden. Heb ddinistrio'r planhigion edrychwch yn y mwsogl a'r cen sydd yn tyfu ar y boncyff.
- Edrychwch yn yr awyr; os mae blodau ar agor edrychwch i weld os bydd peilliwr yn hedfan rhyngddynt.
- Edrychwch ar lawr y goedwig; os mae dail ar y llawr chwilotwch ynddynt.
- Y goeden dderwen sy'n cynnal y nifer fwyaf o rywogaethau gwahanol o bryfaid felly beth am gael carthen wen wedi ei osod o dan goeden dderw ac ysgydwch ychydig ar y canghennau i weld pa drychfilod sy'n disgyn o'r goeden.
- Yn ofalus iawn, cewch hel eich anifeiliaid i mewn i botiau a defnyddio chwydd wydr i edrych arnynt. Defnyddiwch daflen neu app adnabod i helpu chi eu adnabod.

Cofiwch ddychwelyd yr anifeiliaid yn ofalus i'r union le roeddynt!

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES
NATURA 2000
Life

# Helfa Bwystfilod Bach - Taflen Cofnodi

| Anifail | O dan garreg | O dan frigyn | Ar y ddaear | Yn yr awyr | Ar goeden | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

**Wedi i chi fod ar yr helfa, beth am greu graff o'ch canlyniadau yn y dosbarth?**
**Ble roedd y nifer mwyaf o anifeiliaid?**
**Cymharwch eich canlyniadau gyda phlant eraill yn y dosbarth.**

COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU
CELTIC RAINFORESTS WALES
NATURA 2000
Life